**EITEM RHIF 5**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Bwrdd Plas Tan y Bwlch |
| **DYDDIAD** | 13 Gorffennaf 2022 |
| **TEITL** | **DIWEDDARIAD ARIANNOL 2021/22 PLAS TAN Y BWLCH** |
| **ADRODDIAD GAN** | Rheolwr Ty, Plas Tan y Bwlch |
| **PWRPAS** | I ddiweddaru'r Aelodau ar y Sefyllfa Ariannol |

**Cefndir**

Ar yr 28ain o Fai 2021 agorodd Plas unwaith eto ar ôl bod ar gau am dros flwyddyn fel Gwely a Brecwast yn unig. Digwyddodd diswyddiadau rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Mawrth 2021 a oedd yn golygu ein bod wedi colli wyth aelod o staff a oedd yn rhan o'r Cynllun Busnes newydd. Penderfynwyd hefyd y byddai'r ddau aelod o staff arlwyo oedd ar ôl yn haneru eu horiau i gyd-fynd â'r model busnes newydd o baratoi brecwast yn unig. Cafodd tîm y staff gweinyddol ei haneru hefyd gyda'r syniad o un aelod o staff yn unig y tu ôl i'r dderbynfa rhwng 0800-2230.

Daeth y cynllun busnes Gwely a Brecwast i ben a thybiwyd ei fod yn llwyddiannus gan ddod ag incwm o £184,850. Fe ddefnyddion ni Airbnb i ddechrau ac uwchraddio i ddefnyddio system o'r enw Qbooks a oedd yn cysylltu â Booking.com, er bod hyn wedi dod â llawer mwy o fusnes i mewn roedd y staff wedi'u gorlethu gan ba mor brysur oedd Plas a arweiniodd at absenoldebau salwch a oedd yn ein rhoi mewn sefyllfa lle'r oeddem fwyfwy yn fyr o staff. Er mai Gwely a Brecwast yn unig oedd y Cynllun Busnes i fod yn bennaf, roedd gennym gyrsiau a grwpiau oedd eisiau dychwelyd yn ogystal â busnes newydd a olygai eu bod eisiau aros ar sail darpariaeth llety a phob pryd bwyd, a ragorodd ar ein targed incwm o £34.7k gan ddod â chyfanswm yr incwm i £223,593.

**Wrth gyhoeddi hwn, 'rydym yn wynebu'r Model Busnes Gwely a Brecwast**

- Yn brin o staff
- Yn methu cymryd gwyliau/AIAG (toil)
- Dim Staff Cyflenwol yn Ystod Salwch
- Lles / iechyd meddyliol staff wedi cael ei effeithio - morâl isel
- Dirywiodd yr adeilad yn ystod y cyfnod clo gan arwain at gostau uwch na'r arfer
- Hydro anweithredol yn arwain at sero incwm – colli tua £29k.

- System gyfrifiadurol – Airbnb/booking.com yn methu a chyd-gysylltu gan arwain at archebion dwbl
- Diffyg hyfforddiant i'r Rheolwr Tŷ ar y system gyllid, methu â chynhyrchu adroddiad incwm ar gyfer Aelodau'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr.
- Gorfod gwrthod archebion oherwydd ein bod yn brin o staff (yn enwedig yn yr adran arlwyo).
- Gwario mwy o arian ar staff achlysurol a chontractwyr allanol (glanhawyr - £15 y pen yr awr).

**Gwariant yn erbyn Incwm**

Incwm (atodiad 1).

Fel y gwelwch yn atodiad 1, rydym wedi rhagori ar ein targed incwm o £38.7k, cawsom hefyd grant seibiant swyddi / ffyrlo o £17.3k gan ddod â’n hincwm i £241k, mae’r ffigurau hyn o fis Mehefin 2021-Mawrth 2022. Yn anffodus, gyda'r Hydro roedd yr incwm yn sero oherwydd y materion cynnal a chadw oedd gennym, sydd newydd gael eu pennu ym mis Ebrill 2022, felly rydym wedi colli amcangyfrif o £29k.

Cynhyrchwyd yr incwm gyda nifer cyfyngedig o staff ac adnoddau a gwnaed ad-daliadau hefyd oherwydd cyflwr rhai o’r ystafelloedd yn yr adeilad, cafodd covid effaith hefyd gan fod angen i bobl ganslo am eu bod yn ynysu - er enghraifft collwyd 10k dros gyfnod y Nadolig gan nad oedd grwpiau yn cael cyfarfod.

Gwariant (atodiad 2)

Dengys Atodiad 2 ein bod wedi gorwario amcangyfrif o £65k. Mae hyn oherwydd sawl rheswm gan gynnwys gorfod cael staff contract i mewn oherwydd dim ond 3 glanhawr oedd gennym ac nid yw'r naill na'r llall yn llawn amser. Roedd gennym hefyd broblemau gyda lleithder, dŵr poeth a gwres ac felly bu'n rhaid i ni gysylltu â chontractwyr allanol a phrynu nwyddau/eitemau gan gyflenwyr amrywiol. Yn anffodus, bu’n rhaid i ni hefyd brynu oergell newydd ar gyfer y gegin a gostiodd £1,149 oherwydd ymchwydd foltedd uchel gan Scottish Power na chymerasant unrhyw gyfrifoldeb amdano.

Roedd yna hefyd orwariant o fewn yr adran drafnidiaeth o tua £5,343, mae hyn oherwydd fe ad-dalwyd y brydles yn gynnar, bydd hyn yn dod a'r costau i lawr yn 2022/23 gan nad oes gennym y bws mini bellach. Mae gennym bellach 1 bws mini y telir amdano a chludwr pobl, yng nghynllun busnes 2022/23 ni fyddwn yn gweld angen am y bws, ond bydd y cludwr pobl yn aros yr un fath.

**Cynllun Busnes Plas Tan Y Bwlch 2022/23**

Er bod y cynllun busnes gwreiddiol ar gyfer Gwely a Brecwast yn unig, gwelsom fod mwy o alw am archebion grŵp, yn enwedig erbyn 2022. Bellach mae gennym fwy o archebion grŵp nag sydd gennym ar gyfer Gwely a Brecwast (nid oedd hyn yn wir y llynedd oherwydd covid), er gwnaethom yn dda gyda'r grwpiau y llynedd yn 2021 o ystyried ein bod yn dal i fod mewn pandemig, mae'r cynnydd mewn archebion grŵp yn llawer mwy ar gyfer 2022/23.

Mae ein canfyddiadau hefyd yn dangos y byddai 94% o bobl wedi dewis pryd nos pe baem wedi gallu cynnig y gwasanaeth hwnnw, roeddem yn gallu casglu'r dystiolaeth hon drwy holiaduron.

Dyma ein rhagolwg ariannol amcangyfrifedig ar gyfer 2022/23 o ran archebion grŵp.

## ARCHEBION GRŴP 2022

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mai 01/05/2022 | | | |
| | Coleg San Helen - Estelle Linney | 06.05.2022 | £3,061.30 |
| | Cerddwyr Allstree | 16.05.2022 | £4,672.00 |
| | Cerddwyr Twickenham | 16.05.22 | £1,650.00 |
| | Simon Williams peintio | 16.05.2022 | £1,875.55 |
| | Coleg San Helen - Estelle Linney | | £3,061.30 |
| | | | |
| Meh 01/06/2022 | Ysgol Santes Tudfil | 06.06.2022 | £10,025.55 |
| | Coleg San Helen - Estelle Linney | 11.06.2022 | £3,209.00 |
| | Ysgol Abdingdon | 12.06.2022 | £10,489.52 |
| | Lisa Bushby - Coleg Imperial | 19.06.2022 | £19,573.00 |
| | Cymdeithas y Post | 16.06.2022 | £5,000.00 |
| | Dementia Cymru | 29.06.2022 | £4,000.00 |
| Gorff 01/07/2022 | Clwb Campfa Moelwyn | 01.07.2022 | £12,000.00 |
| | Ysgol Sarn Bach | 04.07.2022 | £2,500.00 |
| | Cyfoeth Naturiol Cymru | 29.06.2022 | £3,335.40 |
| | Priodas Laura a John | 09.07.2022 | £4,656.00 |
| | Gwely a Brecwast priodas Laura a John | 096.07.2022 | £2,500.00 |
| | Penwythnos paentio | 14.07.2022 | £1,500.00 |
| | Artistiaid Eddisbury | 25.07.2022 | £2,000.00 |
| Awst 01/08/2022 | | | |
| Medi 01/09/2022 | Priodas Donna a Steff (seremoni yn unig) | 17.9.22 | £780.00 |
| | Red Bull Hardline | 05.09.2022 | £25,000.00 |
| | Penwythnos Paentio | 19.09.2022 | £2,500.00 |
| | Cyfeillion y Plas | 19.09.2022 | £3,240.00 |
| | Susan Longley - Gwnïo | 19.09.2022 | £1,500.00 |
| | Ieuan - gwyliau cerdded | 20.09.2022 | £4,500.00 |
| Hyd 01/10/2022 | Helen a Kev | 22.10.2022 | £4,950.00 |
| | Gwely a Brecwast Helen a Kev | 22.10.2022 | £2,500.00 |
| | Gwenfai | 28.10.2022 | £3,000.00 |
| | Alwena | 28.10.2022 | £2,500.00 |
| | | | £145,578.62 |

Cynulleidfa/Marchnad Darged.

Bydd Plas yn canolbwyntio ar grwpiau preifat, ysgolion, prifysgolion, a phriodasau o fis Chwefror i fis Tachwedd gyda Gwely a Brecwast yn cael ei gynnig o fewn y tymor (10 wythnos y flwyddyn), bydd hyn yn sicrhau bod gennym y capasiti wedyn. Bydd gwely a brecwast ar gael os na fydd y tŷ yn llawn o fewn y cyfnod hwnnw ond yn cael ei gynnig i grwpiau ac ati yn gyntaf. Bydd hyn hefyd yn helpu gyda staffio a'r gallu i gymryd gwyliau ac ati oherwydd bydd gennym galendr digwyddiadau yn ei le.

Bydd y Plas yn cau ym mis Rhagfyr/Ionawr ac yn caniatáu i staff gymryd unrhyw AIAG (amser i'w ail gymeryd) / (= TOIL), gan waredu unrhyw daliadau am AIAG. Dim ond ar gyfer digwyddiadau arbennig fydd Plas ar agor yn ystod y cyfnod hwnnw os yw hynny'n ymarferol, er enghraifft priodasau neu gyfarfodydd dydd. Mae cael diwrnodau penodol ar agor yn ystod y cyfnod hwnnw hefyd yn opsiwn, bydd hyn hefyd yn arbed ar filiau Nwy/Trydan.

Strwythur Staffio Newydd

| | | |
|---|---|---|
| Rheolwr Tŷ | Llawn amser 37 | Yn aros yr un fath |
| Cynorthwyydd Gweinyddol Grŵp | Llawn amser 37 | Yn aros yr un fath |
| Cynorthwy-ydd Cyfarfodydd Dydd | Llawn amser 37 | Diwrnod Ychwanegol (gellid ychwanegu hwn hefyd at y swydd 16.5 awr gan ddod ag ef i 23.5 awr). |
| Derbynnydd x2 | 13 + 16.5 | Yn aros yr un fath, bydd swydd 16.5 yn dod yn wag ym mis Gorffennaf. |
| Tasgmon x1<br>Garddwr x1 | 16 awr | Yn aros yr un fath |
| Glanhawyr x4 | 28 awr, 16 awr, 15 awr, 24 awr | Yn aros yr un fath |
| 2 Cogydd | 33.5 awr, 29.25 awr | Yn aros yr un fath |
| Cogydd cynorthwyol | 25 awr | Swydd wag ar hyn o bryd ond wedi'i chostio |
| Rheolwr Arlwyo | 25 awr | Swydd Newydd |
| Staff Achlysurol – gweinydd/gweinyddes | Amrywiol | Yn aros yr un fath |

**Amcangyfrif o Gyfanswm y Gost = £252k**

O fewn y strwythur staffio newydd, rwyf wedi creu 2 swydd newydd yn ogystal ag ychwanegu diwrnod ychwanegol at un o'r staff gweinyddol, bydd gwneud hyn yn cynyddu ein hincwm oherwydd byddwn yn gallu darparu ar gyfer mwy o grwpiau. Bydd hefyd yn cynnwys cyflenwi yn ystod absenoldebau salwch a gwyliau.

Ar hyn o bryd rydym yn gweithredu gyda dim ond 2 gogydd sy'n gweithio 9 shifft 12 awr yn olynol sy'n golygu ein bod yn gorfod gwrthod grwpiau a phreswylwyr er mwyn i'r staff gael seibiant, mae hyn hefyd yn cael effaith negyddol ar eu hiechyd a'u perthynas gydag adrannau eraill.

Mae angen Rheolwr Arlwyo ar gyfer y gwaith papur diweddaraf a fydd yn cadw'r Plas ar safon glanweithdra 5*, anfonebu, ymgyfarwyddo â’r ddeddfwriaeth ddiweddaraf, iechyd/diogelwch ac i wneud penderfyniadau ar gyfer y tîm arlwyo. Mae angen cogydd cynorthwyol hefyd oherwydd bydd hyn yn helpu i allu cynnig mwy tra'n rhoi egwyl i'r cogydd.

**Ystafell De**

Byddai Plas yn elwa’n aruthrol pe baem yn ail-agor yr ystafell de gan ddefnyddio’r gweinyddesau achlysurol. Gellid agor yr ystafell de 3 diwrnod yr wythnos gan gynnwys – dydd Gwener, dydd Sul a dydd Llun rhwng 11yb a 3:30yp. Yn ystod y tymor, gallai’r caffi agor 5 diwrnod yr wythnos gan gynnig te/cacen yn unig – gan gadw costau ac amser staff y gegin i’r lleiafswm. Byddai costau rhedeg y Caffi tua £9.80 am 3 chacen a 0.33 y gwpan (o goffi), gydag 1 aelod o staff yn gweithio 5 awr y dydd am £47.50. O edrych ar flynyddoedd blaenorol roedd y caffi yn gwneud tua £100-£200 y dydd (roedd hyn yn cynnwys brechdanau a chawl).

Gallai'r cacennau na chaiff eu defnyddio hefyd gael eu defnyddio'r diwrnod canlynol gan olygu y byddai cyn lleied o wastraff â phosibl. Byddem yn gallu codi £3.60 am ddarn o gacen a phaned o goffi am £2.70 felly am bob 20 o unigolion byddem yn gwneud £126. Yn y tymor tawelach, byddai staff y dderbynfa/glanhawyr yn gallu defnyddio eu horiau a helpu yn y caffi yn hytrach na chael staff achlysurol i mewn neu hyd yn oed gau ac yna ailagor yn ystod hanner tymor.

**Bar**

Mae'r Bar bellach wedi'i symud i'r ystafell wydr (ystafell de), sydd ar agor dim ond pan fydd gennym archebion grŵp mawr. Mae staff y dderbynfa yn dal i fod yn gyfrifol am ofalu am y bar yn ystod yr oriau 21:00-23:00. Er mwyn gwneud defnydd llawn o'r bar/cyfleusterau, byddem yn agor y bar ar yr un diwrnodau/amseroedd â'r caffi, gan gynyddu ein hincwm ystafell de.

Yn y gorffennol rydym wedi derbyn adborth gan ein preswylwyr Gwely a Brecwast ar tripadvisor/booking.com y byddent wedi hoffi i’r bar fod ar agor yn ystod eu harhosiad a’u bod yn siomedig iawn i ddarganfod ei fod ar gau, felly byddai Plas yn elwa o agor bar ar gyfer yr holl breswylwyr yn ystod y flwyddyn yn enwedig ar benwythnosau.

# Costau Plas 22/23

| Disgrifiad | Cyllideb Wreiddiol 21/22 | Angen 22/23 | Gwariant 21/22 |
|---|---|---|---|
| **Costau Cyflogaeth** | | | |
| cyflogau | 202.5k | 250,518 | 233,000 |
| Oriau Ychwanegol/Casuals | | 10,000 | 14,696 |
| **Costau Tiroedd ac Eiddo** | | | |
| c&c - systemau larwm | 4,000 | 4,000 | 3,178 |
| c&c - larymau ac offer mecanyddol | - | 3,000 | 5,015 |
| cynnal a chadw (rhaglennwyd) | 8,000 | 8,000 | 15,000 |
| c&c adeiladau - gwasanaeth | 1,000 | 3,000 | 3,882 |
| c&c tiroedd - gwasanaeth | 4,310 | 1,000 | 1,065 |
| trydan | 5,000 | 5,000 | 19,613 |
| nwy | 15,000 | 15,000 | 16,249 |
| trethi | 26,000 | 26,000 | - |
| gwasanaethau dwr (cynnwys treth) | 3,640 | 3,640 | 4,934 |
| cyflenwadau ty | 3,000 | 3,000 | 5,855 |
| casglu 'sbwriel | 1,500 | 1,500 | 839 |
| **Trafnidiaeth** | | | |
| APCE - treth cerbyd | 3,000 | 3,000 | 420 |
| APCE - MOT | - | - | 105 |
| APCE cerbydau - cynnal a chadw | - | - | 2,946 |
| **Gwasanaethau a Chyflenwadau** | | | |
| prynu / hurio offer | 1,000 | 2,000 | 4,153 |
| pryniannau arlwyaeth | 13,000 | 13,000 | 19,237 |
| pryniannau i'r bar (Plas) | - | 1,000 | 939 |
| golchi dillad | 2,640 | 2,640 | 3,194 |
| offer swyddfa a chyhoeddiadau | 500 | 300 | 288 |
| teliffon / ffacs | 1,000 | 1,000 | 1,123 |
| ffonau symudol | 200 | 200 | 564 |
| hysbysebion (dim staff) | 2,500 | 1,000 | - |
| **Cyfanswm** | | 357,798 | |

Mae'r costau staffio yn cynnwys swydd newydd y Rheolwr Arlwyo. Byddai'r cyflog yn fras yn 17,518 pro rata.

**Incwm 2022/23**

| | |
|---|---|
| Grwpiau/Cyrsiau | £200,000 |
| Gwely a Brecwast | £89,000 |
| Rhent, ystafell de, cyfarfodydd dydd, teithiau gardd, bar, te prynhawn ac ati. | 22,280 |
| Prydau Gyda'r Nos | £21,150 |
| Hydro / Trydan Dŵr | £29,000 |
| Cyfanswm | £361,430 |

Mae'r incwm amcangyfrifedig hwn yn seiliedig ar archebion presennol ac yn y dyfodol os oes gennym ddigon o staff, - mae hyn hefyd yn cynnwys prydau gyda'r nos ar rai dyddiau o'r wythnos gan gynnwys dydd Iau, dydd Gwener a dydd Sadwrn am £23.50 y pen ar lefel deiliadaeth o 60% byddai'n dod â thua £705 i mewn y noson (oedolion yn unig). Byddai'r incwm o'r prydau gyda'r nos felly yn talu costau'r rheolwr arlwyo.

Ym mis Gorffennaf rydym wedi gorfod blocio nifer o ddiwrnodau rhydd i staff y gegin gael egwyl oherwydd byddant yn gweithio trwy gydol mis Mehefin gyda'r lleiafswm o 2 aelod o staff. Yn anffodus, bydd hyn yn cael effaith andwyol ar incwm y busnes ar yr adeg a ddylai fod ar yr amser prysuraf o'r flwyddyn, - fe wnaed hyn am fod lles y staff yn llawer pwysicach ac ar hyn o bryd ni allwn ymdopi â phwysau'r cyfnod prysur, - mae hyn yn cael effaith negyddol ar iechyd a lles y staff.

Roedd hysbyseb swydd wedi mynd allan ar gyfer Cogydd Cynorthwyol ond yn anffodus, ni ddangoswyd unrhyw ddiddordeb, er fy mod wedi cael ymholiadau ynghylch nifer yr oriau - yn anffodus nid yw 25 awr yn ddigon. Felly, gan gymryd i ystyriaeth y busnes rydym yn ei golli ym mis Gorffennaf, rwyf wedi penderfynu cynyddu nifer yr oriau ar gyfer y rheolwr arlwyo i hyd at 37 awr (llawn amser), rwy'n meddwl mai ein blaenoriaeth yw cynyddu oriau'r rheolwr arlwyo yn hytrach na'r cogydd cynorthwyol ar hyn o bryd oherwydd bydd y rheolwr nid yn unig yn gallu coginio ond hefyd, cynllunio digwyddiadau, archebu stoc, sicrhau bod yr holl ganllawiau iechyd a diogelwch yn cael eu dilyn ac ati.

**Sut byddaf yn cyfiawnhau'r cynnydd mewn oriau?**

Ar hyn o bryd mae gennym tua 15 diwrnod wedi'u blocio ym mis Gorffennaf, sef hanner y mis. O edrych ar ein harchebion ar gyfer mis Mehefin (sy'n gyfan gwbl llawn) rydym yn colli tua 4 archeb grŵp a fyddai'n tua £40k neu £1,428 y diwrnod ar gyfer archeb grŵp sy'n talu £10k am wythnos. O ran Gwely a Brecwast rydym yn colli tua £2,421.net y noson gyda deiliadaeth o 40% rhwng y bylchau lle mae gwahanol grwpiau yn aros.